

# Diploma Lefel 1 UAL mewn Celf, Dylunio a'r Cyfryngau (Amser Llawn)

Mae Diploma Lefel 1 UAL mewn Celf, Dylunio a'r Cyfryngau yn gwrs amser llawn yn y Drenewydd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno ennill profiad a sgiliau mewn cynhyrchu Celf, Dylunio a'r Cyfryngau Creadigol. Ar ddiwedd y cwrs blwyddyn, gall dysgwyr symud ymlaen i Ddiploma Lefel 2 mewn Cynhyrchu a Thechnoleg Cyfryngau Creadigol, Celf a Dylunio neu'r Celfyddydau Perfformio.

Mae'r maes llafur yn cynnig ystod eang o weithgareddau ymarferol ac academiaidd, gan gynnwys dysgu sgiliau celf traddodiadol, Darlunio, ffotograffiaeth, animeiddio, cynhyrchu fideo, sgiliau golygu a dylunio. Mae creadigrwydd a dychymyg yn allweddol, tra bod sgiliau dadansoddi da yn bwysig i wireddu eich syniadau cynhyrchiol.

Os ydych chi wedi ymrwmo i astudiaeth bellach neu yrfa mewn cynhyrchu cyfryngol a'r celfyddydau creadigol, yna dyma'r cwrs i chi. Rydym yn yr adran Creadigol, Gweledol a Pherfformio (CVP).

## Gofynion Mynediad

Cyfweliad cyn cofrestru. 2 TGAU gradd 2 neu uwch, neu gymhwyster lefel 1 priodol.

## Rhagolygon Gyrfa

Mae dysgwyr llwyddiannus yn cael cyfle i ymuno â chyrсияu Diploma/Diploma Estynedig Lefel 3 yn y Cyfryngau Creadigol, neu Gelf a Dylunio neu'r Celfyddydau Perfformio, gan eu harwain i chwilio am le mewn prifysgol, neu brentisiaeth uwch. Mae llawer o sgiliau cyfryngau creadigol yn trosglwyddo'n dda i'r gweithle h.y. sgiliau cyfathrebu, creadigrwydd a datrys problemau.

## Asesiad

Asesir eich gwaith ar sail barhaus ffurfiol ac anffurfiol, gydag adborth llafar ac ysgrifenedig cyson gyda gradd. Asesir eich Prosiect mawr Terfynol fel Llwyddiant, Teilyngdod neu Ragoriaeth.

## Costau Ychwanegol

Bydd costau ychwanegol cysylltiedig â chyrсияu sy'n cynnwys casglu llyfr braslunio A3 yn ogystal â chasglu deunydd ysgrifennu sylfaenol gan gynnwys set o bensiliau lluniadu, rwbwr a miniwr.

Coleg Afan  
Coleg Bannau Brycheiniog  
Academi Chweraeon Llandarcy  
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg  
Coleg Castell-nedd  
Coleg Y Drenewydd  
Coleg Pontardawe  
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College  
Brecon Beacons College  
Llandarcy Academy of Sport  
Maesteg Construction Centre of Excellence  
Neath College  
Newtown College  
Pontardawe College  
Swansea Construction Centre





## DULL ASTUDIO

FT

## LLEOLIAD

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

Coleg Afan - 0330 818 8100

## HYD Y CWRS

1Y

Coleg Afan  
Coleg Bannau Brycheiniog  
Academi Chwaraeon Llandarcy  
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg  
Coleg Castell-nedd  
Coleg Y Drenewydd  
Coleg Pontardawe  
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College  
Brecon Beacons College  
Llandarcy Academy of Sport  
Maesteg Construction Centre of Excellence  
Neath College  
Newtown College  
Pontardawe College  
Swansea Construction Centre



☎ 0330 818 8100

✉ [enquiries@nptcgroup.ac.uk](mailto:enquiries@nptcgroup.ac.uk)

🌐 [www.nptcgroup.ac.uk](http://www.nptcgroup.ac.uk)

